# Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Cynghori Cenedlaethol – 11 Chwefror 2026

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol 11 Chwefror 2026

**Cyhoeddwyd:** 15 Gorffennaf 2026 **Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Gorffennaf 2026

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofnodion-cyfarfod-bwrdd-cynghori-cenedlaethol-11-chwefror-2026**
i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.

## Cynnwys


- Presenoldeb
- Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau
- Cofnodion y cyfarfod blaenorol
- Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Arolygydd
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Lleisiau'r aelodau
- Cynllun Strategol – Thema “Rhoi sicrwydd”
- Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Proses pryderon – llythyrau a gohebiaeth wedi'u diweddaru
- Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf
- Cofnod Camau Gweithredu

# Presenoldeb

## Yn bresennol

- Ruth Hussey (Cadeirydd)
- Stuart Davies (Darparwr Gwasanaeth Cymorth Cartref)
- Tomos Davies (Swyddfa'r Comisiynydd Plant)
- Natalie Fletcher (Darparwr)
- Rachel Harris (Darparwr Gofal Dydd Llawn)
- Cari Jones (Gofalwr)
- Bethan Kay (Swyddog Blynyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol a defnyddiwr gwasanaethau gofal plant)
- Peter Max (Darparwr Gofal Preswyl)
- Melanie Minty (Fforwm Gofal Cymru)
- Gillian Baranski (Prif Arolygydd)
- Kevin Barker (AGC)
- Annette Hennessey (AGC)
- Sarita Marshall (AGC)
- Vicky Poole (AGC)
- Margaret Rooney (AGC)
- Elizabeth Wallwork (AGC)

## Ymddiheuriadau

- Valerie Billingham (Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn)
- Orlaith Brennan (Darparwr Gwasanaeth Cymorth Cartref)
- Kate Cubbage (Ymddiriedolaeth Gofalwyr)
- Alyson Thomas (Llais)
- Jenny Williams (ADSS Cymru)
- Claire Protheroe (CWLWM)

# 1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau.

Cyflwynodd yr aelodau a oedd yn bresennol eu hunain. Croesawyd aelodau newydd a'r unigolion a oedd yn bresennol am y tro cyntaf.

# 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Arolygydd

Mae'r datblygiadau allweddol ers y cyfarfod diwethaf yn cynnwys:

- Cyhoeddi Modiwl 2 o Ymchwiliad COVID-19; cyflwynodd AGC ddatganiad ac mae'n aros am Fodiwl 6 (gwasanaethau gofal).
- Recriwtio 27 o arolygwyr newydd ledled Cymru, gan gynnwys gwella'r capasiti Cymraeg, yn enwedig yng Ngogledd Cymru.
- Cwblhau'r adroddiad “Graddau: 7 mis yn ddiweddarach”, gyda thros 90% o raddau da neu ragorol yn cael eu dyfarnu i gartrefi gofal a chymorth cartref.
- Mae capasiti uwch bellach yn galluogi AGC i ailddechrau ar y gwaith a gafodd ei oedi oherwydd pwysau staff.
- Ymddangos gerbron Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, gan gynnwys craffu ar adroddiad blynyddol AGC.
- Myfyrio ar fethiannau diogelu yn genedlaethol, gyda phwyslais ar systemau, dysgu a “llais y plentyn / unigolyn wrth wraidd gofal”.
- Cydnabod na all AGC atal pob achos o niwed, ond y gall atgyfnerthu sicrwydd, systemau a threfniadau gweithio mewn partneriaeth.
- Trafodaeth ar aelodaeth y bwrdd a'r angen i wella cynrychiolaeth ac amrywiaeth ar y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

### Themâu allweddol

- Pwysigrwydd dangos tystiolaeth o “lais y bobl” mewn arolygiadau ac adroddiadau.
- Yr angen i ddangos effaith dros amser, nid gweithgaredd yn unig.
- Gwerth gweithio mewn partneriaeth â darparwyr.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rhannodd Margaret Rooney y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant AGC, gan gynnwys:

- Ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn fframweithiau arolygu a phrosesau sefydliadol.
- Gwaith a phartneriaethau gwrth-hiliaeth.
- Newidiadau i ddogfennaeth gofrestru er mwyn atgyfnerthu'r ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o'r dechrau.
- Defnyddio Ymarfer Gwerth ei Rannu i nodi ymarfer cynhwysol.
- Sefydlu grŵp cyfeirio arbenigwyr ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru.

- Gwella hygyrchedd adroddiadau a chynnwys digidol (gan gynnwys fersiynau Hawdd eu Deall).
- Darparu sesiynau pwrpasol ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i arolygwyr.

### Heriau a nodwyd

- Diffyg amrywiaeth yn y gweithlu (yn enwedig amrywiaeth ethnig a chynrychiolaeth o anableddau).
- Data recriwtio a gweithlu anghyflawn.
- Yr angen i wella cynrychiolaeth ac amrywiaeth ar y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

### Cyfraniadau aelodau

Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys:

- Dysgu o ddull Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau amrywiaeth.
- Taliadau neu ad-daliadau i bobl â phrofiad bywyd sy'n cyfrannu at waith cynghori.
- Prosesau recriwtio allgymorth drwy rwydweithiau cymunedol.
- Cynnwys gweithwyr gofal a phobl sy'n cael gwasanaethau drwy ddulliau ymgysylltu hyblyg neu ddulliau sy'n benodol i faterion yn hytrach na rolau bwrdd ffurfiol.
- Ystyried gwelededd anableddau na ellir eu gweld wrth gasglu data.

### Camau gweithredu

AGC i adolygu amrywiaeth ymhlith aelodaeth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, nodi bylchau o ran cynrychiolaeth ac archwilio opsiynau recriwtio ac adrodd yn ôl gyda chynigion mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5. Lleisiau'r aelodau

### 5.1 Gofalwyr di-dâl a thaliadau uniongyrchol

Codwyd pryderon ynghylch y canlynol:

- Ni roddir gwybod am hawliau i ofalwyr di-dâl.
- Anghysondeb rhwng awdurdodau lleol (“loteri cod post”).
- Oedi wrth ryddhau cleifion yn gysylltiedig â chymorth cymunedol.

#### Camau gweithredu

AGC i barhau i godi materion drwy arolygiadau awdurdodau lleol ac ymgysylltu ag uwch-arweinwyr a rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru.

### 5.2 Arferion comisiynu ac awdurdodau lleol

Codwyd pryderon ynghylch y canlynol:

- Cyfraddau ffioedd anghyson ledled Cymru.
- Tensiwn cynyddol rhwng darparwyr a chomisiynwyr.
- Anghydbwysedd canfyddedig o graffu rhwng darparwyr preifat/gwirfoddol a chyrff statudol.

Cadarnhaodd AGC ei phwerau a'i fframweithiau arolygu, gan gynnwys triniaeth gyfartal o ddarpariaeth breifat a darpariaeth awdurdodau lleol lle caiff gwasanaethau eu rheoleiddio.

#### Camau gweithredu

CIW to use future relevant thematic reviews to gather provider experience.

Consider methods to better capture provider and stakeholder feedback during local authority inspections.

## 6. Cynllun Strategol – Thema “Rhoi sicrwydd”

Rhoddodd Margaret Rooney drosolwg o'r gweithgarwch rhoi sicrwydd presennol:

- Cofrestriad, arolygu a graddau.
- Gwaith arolygu awdurdodau lleol.
- Ymdrin â phryderon.
- Prosesau gorfodi.
- Adolygiadau thematig.
- Prosesau sicrhau ansawdd a llywodraethu mewnol.

Trafodaeth ar sut y gallai AGC atgyfnerthu sicrwydd, gan gynnwys y canlynol:

- Defnyddio gwybodaeth a data rhagfynegi yn well.
- Amlder arolygu yn seiliedig ar risg.
- Mwy o dryloywder ynghylch camau gorfodi.
- Ffocws cryfach ar arweinyddiaeth, llywodraethu a diwylliant.
- Cyfathrebu'n well am yr hyn y gall sicrwydd ei wneud a'r hyn na all ei wneud.

### Adborth

- Hyder cyffredinol yn rôl sicrhau ansawdd AGC.
- Cydnabod na ellir rhoi sicrwydd pendant bob amser.
- Pwysigrwydd rheoli disgwyliadau'r cyhoedd.

### Camau gweithredu

AGC i barhau i ddatblygu cynigion ar atgyfnerthu sicrwydd (gan gynnwys dulliau a gaiff eu harwain gan wybodaeth) er mwyn i'r Tîm Arwain Gweithredol eu hystyried gan roi sylw i adborth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

## 7. Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyflwyno copi drafft o'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

Pedair thema allweddol:

1. Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.
2. Galluogi prosesau ymgysylltu ystyrlon.
3. Atgyfnerthu prosesau cyfathrebu digidol a hygyrch.
4. Datblygu partneriaethau strategol a galluedd mewnol.

Adborth a nodwyd:

- Pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth cyn cyfnodau o argyfwng.
- Yr angen am ganlyniadau mesuradwy a blaenoriaethu.
- Gwerth llwyddiannau cyflym er mwyn cynnal momentwm.
- Pwysigrwydd ymddiriedaeth, eglurder a herio camwybodaeth.

### Camau gweithredu

AGC i nodi camau gweithredu â blaenoriaeth a dangosyddion mesuradwy a llunio'r strategaeth derfynol gan gynnwys adborth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

## 8. Proses pryderon – llythyrau a gohebiaeth wedi'u diweddaru

Rhannodd Vicky Poole gopïau drafft diwygiedig o lythyrau ar gyfer ymateb i bryderon.

Ystyriwyd dau opsiwn:

1. Opsiwn 1: Esbonio'r holl gamau gweithredu posibl a'r penderfyniad a wnaed.

2. Opsiwn 2: Nodi'r camau gweithredu y mae AGC yn bwriadu eu cymryd yn unig.

Roedd yr aelodau'n ffafrio **Opsiwn 2**, ac awgrymwyd y gellir gwneud y canlynol:

- Gwella dilysrwydd emosiynol ac empathi.
- Ystyried oedran darllen ac iaith syml.
- Cynnwys cyfeiriad at gymorth lle y bo'n briodol.
- Sicrhau bod arolygwyr yn cael eu hannog i bersonoli ymatebion.

### Camau gweithredu

AGC i fireinio llythyrau ymateb i bryderon, gan ddefnyddio Opsiwn 2 fel y prif dempled, ac ystyried adborth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol.

## 9. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Croesawodd aelodau y fideo o adborth cadarnhaol a ddangoswyd ar ddiwedd y cyfarfod.

Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf: **10 Mehefin 2026**

## Cofnod Camau Gweithredu

Mae'n bosibl na fydd modd gweld rhywfaint o gynnwys y tabl isod yn y ddogfen hon. Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofnodion-cyfarfod-bwrdd-cynghori-cenedlaethol-11-chwefror-2026 (https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofnodion-cyfarfod-bwrdd-cynghori-cenedlaethol-11-chwefror-2026)** i'w weld yn llawn.

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Perchennog | Amserlen / Diweddariad nesaf |
|---|---|---|---|
| A1 | AGC i adolygu amrywiaeth ymhlith aelodaeth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol, nodi bylchau o ran cynrychiolaeth ac archwilio opsiynau recriwtio ac adrodd yn Ã´l gyda chynigion mewn cyfarfod yn y dyfodol. | AGC (Gillian / TÃ®m Arwain Gweithredol) | Parhaus |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Perchennog | Amserlen / Diweddariad nesaf |
|---|---|---|---|
| A2 | AGC i barhau i godi materion drwy arolygiadau awdurdodau lleol ac ymgysylltu ag uwch-arweinwyr a rhannu gwybodaeth Ã¢ Llywodraeth Cymru. | AGC | Cyfarfod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ym mis Mehefin |
| A3 | AGC i ddefnyddio adolygiadau thematig perthnasol a gynhelir yn y dyfodol i nodi profiad darparwyr. | AGC | Cyfarfod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ym mis Mehefin |
| A4 | Ystyried dulliau er mwyn casglu adborth gan ddarparwyr a rhanddeiliaid yn well yn ystod arolygiadau awdurdodau lleol. | AGC | Cyfarfod y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ym mis Mehefin |
| A5 | AGC i barhau i ddatblygu cynigion ar atgyfnerthu sicrwydd (gan gynnwys dulliau a gaiff eu harwain gan wybodaeth) er mwyn i'r TÃ®m Arwain Gweithredol eu hystyried gan roi sylw i adborth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol. | AGC | Parhaus |
| A6 | AGC i nodi camau gweithredu Ã¢ blaenoriaeth a dangosyddion mesuradwy a llunio'r strategaeth derfynol gan gynnwys adborth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol. | AGC | Parhaus. Bwriedir cyhoeddi'r strategaeth yn dilyn y cyfnod cyn yr etholiad. |

| Cyfeirnod | Cam gweithredu | Perchennog | Amserlen / Diweddariad nesaf |
|---|---|---|---|
| A7 | AGC i fireinio llythyrau ymateb i bryderon, gan ddefnyddio Opsiwn 2 fel y prif dempled, ac ystyried adborth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol. | AGC | Parhaus |

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o **arolygiaethgofal.cymru**
Ewch i **https://www.arolygiaethgofal.cymru/cofnodion-cyfarfod-bwrdd-cynghori-cenedlaethol-11-chwefror-2026**
i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.
Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn **English**.